




Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)

[SCWWDP] Gorllewin Cymru 2020/21

Cynnwys

• Y Bartneriaeth	2
• Llywodraethu Partneriaeth SCWWDP	2
• Yr Awdurdod Lleol Arweiniol	2
• Ymgysylltu'n Llawn â'r Sector	3
• Aelodaeth Bwrdd Rhaglen Gweithlu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru	4
• Amserlen cyfarfodydd ac ymgysylltiadau ar gyfer SCWWDP/Bwrdd y Gweithlu ar gyfer 2020/2021.....	6
• Adnoddau.....	7
• Ymarfer Arloesol	11
• Cynllun Gweithredu Treigl.....	14
• Ffurflen Cymeradwyo Cais am Grant (Atodiad A)	30


Y Bartneriaeth

A. Llywodraethu Partneriaeth SCWWDP

1. Yr Awdurdod Lleol Arweiniol

Yr awdurdod arweiniol yng Ngorllewin Cymru ar gyfer cydlynu a chyflwyno cais 2020/21 yw Cyngor Sir Caerfyrddin, a'r arweinydd ariannol yw Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol arweiniol ar gyfer y gweithlu yn y rhanbarth wedi'i leoli yng Nghyngor Sir Penfro [gweler [Atodiad A](#) ar gyfer y ffurflen gymeradwyo].

Y berthynas rhwng SCWWDP/Byrddau'r Gweithlu ac ardaloedd y bartneriaeth ranbarthol a sefydlwyd o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014



Mae'r broses o lywodraethu'r rhaglen a'r ymgynghoriad strategol â'r sector yn cael ei chynnal drwy gyfrwng y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol sef Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Mae'r diagram uchod yn nodi'r trefniadau presennol.

Mae Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol yn gyfrifol am lywodraethu SCWWDP, ochr yn ochr â chylch gwaith ehangach ar gyfer datblygu a gweithredu strategaeth y gweithlu ranbarthol. Mae Rheolwr Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol hefyd yn cysylltu â byrddau rhaglenni eraill er mwyn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â'r gweithlu ar draws rhaglenni rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Y llynedd, adolygodd Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol ei amcanion a oedd yn cynnwys newidiadau i gylch gwaith ac aelodaeth Grŵp Strategaeth y Gweithlu i sicrhau yr ymgysylltir yn llawn â'r sector fel rhan o SCWWDP a bod gofynion ymgysylltu cylchol yn cael eu bodloni ar gyfer ymgysylltu strategol ar draws y sector. Mae rhaglen waith gan Fwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol ar gyfer 2020/21 gyda phrosiectau penodol i'w cyflawni fel yr amlinellir yn fwy manwl isod.

Bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y tri awdurdod lleol yn llofnodi cais SCWWDP ar y cyd cyn ei gyflwyno. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn goruchwyllo'r cynllun gweithredu treigl (atodiad D) gyda mentrau penodol yn cael eu hadrodd arnynt yn fanwl trwy gydol y flwyddyn.

2. Ymgysylltu'n Llawn â'r Sector

Yn ystod 2019/20, cyflawnwyd amrywiaeth o fentrau ymgysylltu rhanbarthol a lleol ar draws y sector, gyda dadansoddiad o anghenion hyfforddi wedi'u cwblhau gan dimau SCWWDP i ddatblygu'r cynllun. Mae timau SCWWDP wedi bod yn ymgynghori'n helaeth a gweithio mewn partneriaeth gan arwain prosiectau allweddol, er enghraifft:

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth hyfforddi diogelu ranbarthol.
- Cynnal peilot ar gyfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i brofi cyd-ddarpariaeth gan Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Fframwaith Ymsefydlu Cymru gyfan.
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch i ddarparu addysg ymarfer o safon yn y rhanbarth.
- Cydweithio'n agos â Gweithffyrdd+ ar brosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol ar gyfer hyfforddi pobl ddi-waith sydd am weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol wedi mireinio ei aelodaeth ac erbyn hyn mae'n mabwysiadu dull dwy haen. Mae Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol yn adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol sy'n cynnwys rhanddeiliaid gweithlu allweddol o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae grŵp o randdeiliaid fel yr amlinellir yn y cylchlythyr grant yn cefnogi gwaith y ddau fwrdd. Mae hyn yn golygu y gellir ymgysylltu mewn modd wedi'i deilwra a chanolbwyntiedig yn unol â phrosiectau penodol.

Prosiectau penodol Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol yw:

- Rhaglen brentisiaeth ar y cyd ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol, gan adeiladu ar lwyddiant y brentisiaeth nyrsio bresennol a gafodd ei lansio'r flwyddyn ddiwethaf;
- Dull gweithio ar y cyd wrth gynllunio'r gweithlu, gan arwain at gynllun ar y cyd ar gyfer y rhanbarth cyfan; creu cyfleoedd ar gyfer mentrau dysgu a datblygu ar y cyd;
- Parhau ac adeiladu ar agwedd ranbarthol Ymgyrch Denu a Recriwtio Gofal Cymdeithasol Cymru
- Grŵp ar y cyd i ddatblygu mentrau'r gweithlu sy'n codi o'r rhaglen drawsffurfio £12m o fewn rhanbarth Gorllewin Cymru.
- Cyfleoedd dysgu a datblygu ar y cyd ar draws y rhanbarth

Mae prosiectau eraill hefyd yn mynd rhagddynt yn dda megis datblygu cronfa o weithwyr cymdeithasol cymwysedig i leihau costau asiantaeth a phrosiect peilot penodol mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd lle mae'r rhai sydd ag anableddau dysgu yn ymuno â'r gweithlu ac yn cael addasiadau priodol i'w helpu gyda'u dilyniant gyrfa.

Mae'r fforwm arloesi rhanbarthol yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid o bob rhan o'r sector; mae'r fforwm yn cyflwyno cyfleoedd i ymgysylltu a rhoi adborth ar amrywiaeth eang o faterion rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys:-

- Cynnal ymgysylltiad penodol â darparwyr gofal cartref lleol a chomisiynwyr, gan ganolbwyntio ar ymgyrch denu a recriwtio Gofal Cymdeithasol Cymru
- Materion ehangach sy'n gysylltiedig â'r sector, gan gynnwys cofrestru, ymsefydlu a thrawsffurfio gwasanaeth
- Cefnogi ymgyrch denu a recriwtio Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol yn sicrhau bod yr amrywiaeth o randdeiliaid a nodir yng nghylchlythyr SCWWDP, ochr yn ochr ag ieuchyd, addysg, tai, y gwasanaeth prawf a'r heddlu yn cael eu cynnwys drwy'r dull hwn. Mae trefniadau ar wahân yn parhau i fod ar waith yn y siroedd er mwyn hwyluso ymgysylltiad ar lefel fwy lleol.

3. Aelodaeth Bwrdd Rhaglen Gweithlu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Jonathan Griffiths, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Penfro **[Cyd-gadeirydd]**
 Lisa Gostling, Bwrdd Ieuchyd Prifysgol Hywel Dda, Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadaeth **[Cyd-gadeirydd]**
 Martyn Palfreman, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
 Rebecca A Jones, Rheolwr Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
 Andrew Bell, Gofal Cymdeithasol Cymru
 Jeff Brattan-Wilson, Gofal Cymdeithasol Cymru [swyddog arall enwebedig Gofal Cymdeithasol Cymru]

Caroline Lewis, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Pobl a Threfniadaeth, Cyngor Sir Ceredigion
Ceri Davies, Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Penfro
Paul R Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol, [Rheoli Pobl] Cyngor Sir Caerfyrddin
Chris Harrison, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin
Ruth Bowman, Rheolwr Datblygu'r Gweithlu [Gofal Cymdeithasol], Arweinydd Rhanbarthol SCWWDP
Jane Lewis, Rheolwr y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol
Tracy Walmsley, Uwch Reolwr Datblygu'r Gweithlu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cheryl Raymond, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Amanda Glanville, Uwch Ymgynghorydd y Gweithlu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Trish Mathias-Lloyd, Rheolwr Datblygu Iechyd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Grŵp Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Jina Hawkes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Rheolwr Cyffredinol – Gofal Sylfaenol Cymunedol
Sue Leonard, Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Hazel Lloyd Lubran, Prif Weithredwr, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Marie Mitchell, Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Alison Harries, Prif Weithredwr, Croesffyrdd
Avril Bracey, Pennaeth Anableddau Dysgu/Iechyd Meddwl, Cyngor Sir Caerfyrddin
Mandy Ifans, Pennaeth Cyngor Cyflogaeth, Gyrfa Cymru
Tony Sawyer, Cadeirydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol
Matthew Walters, Cynrychiolydd Unsain
Angie Darlington, Gweithredu Dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru
Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru
Jeremy Field, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Alyson Phillips, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Matt Morden, Coleg Sir Gâr
Lucy Breckon, Coleg Sir Benfro

4. Amserlen cyfarfodydd ac ymgysylltiadau ar gyfer SCWWDP/ Bwrdd y Gweithlu ar gyfer 2020/2021

Bydd Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol yn parhau i gwrdd bob tri mis.

Cyfarfodydd Grŵp Strategaeth y Gweithlu Rhanbarthol ar gyfer 2020/2021:

- 14/02/20 13:30 – 15:30
- 12/05/20 10:00 – 12:00
- 31/07/20 10:00 – 12:00
- 30/10/20 10:00 – 12:00
- 22/01/21 10:00 – 12:00

Dolen(ni) ar y we i atodlen/calendrau dysgu a datblygu cyhoeddedig

Sir Gaerfyrddin:

<http://www.workforcedevelopmentcarmarthenshire.co.uk/>

Ceredigion:

<https://ceri.ceredigion.gov.uk/learning>

Sir Benfro:

<https://www.pembrokeshire.gov.uk/scwwdp>

B. Adnoddau

Mae'r adran ganlynol (Ffigur 1, 2 a 3) yn dangos y dyraniad adnoddau dynol a gefnogir gan y grant ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r tri thîm SCWWDP yn rhan ganolog o'r adrannau Adnoddau Dynol/Rheoli Pobl yn eu priod sefydliadau. Mae strwythur pob tîm yn adlewyrchu dull gweithredu penodol y sefydliadau.

Mae'r allwedd isod yn dangos y swyddi a ariennir yn llawn neu'n rhannol a'r rhai na ariennir gan y grant:

Swyddi a ariennir yn llawn gan y grant




Swyddi a ariennir yn rhannol gan y grant




Swyddi heb eu hariannu'n uniongyrchol gan y grant (cyfraniad yr awdurdod lleol)






Sir Gaerfyrddin



Ffigur 2

Ceredigion



Ffigur3

*Wedi'i ariannu ar y cyd gan SCW/HEIW hyd at 11/2021 – swydd sy'n aros i'w chymeradwyo 11/2021 [HEIW /SCW]

DS: Adnoddau dros dro ar 14.01.20 yn ddarostyngedig i'r setliad cyllideb a chan gymryd bod codiad tâl o 2%

C. Ymarfer Arloesol

Yr Her a Wynebir	Dull Gweithredu	Canlyniadau a Gyflawnwyd	Gwersi a Ddysgwyd
Hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth yn y sector gofal cymdeithasol.	Y tîm Dysgu a Datblygu wedi gweithio â pherson ifanc o ysgol leol a ddyluniodd 'tocyn aur'. Cafodd y tocyn aur ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Ngheredigion a gofynnwyd i'r disgyblion ei gwblhau a dod â'r tocyn i stondin Cyngor Ceredigion yn ffair yrfaoedd Prifysgol Aberystwyth er mwyn cael cyfle i ennill ipad (cafodd yr ipad ei roi gan gyflenwr TG yr awdurdod lleol).	1. Y nifer fwyaf erioed o bobl ifanc wedi ymweld â'n stondin gyrfaoedd. Roedd hyn yn golygu bod modd i ni sgwrsio â dros 300 o bobl ifanc am eu dewis o yrfa. 2. Cyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r Cyngor yn y cyfrangau lleol gyda'r ipad yn cael ei gyflwyno. 3. Cydweithredu ag ysgolion uwchradd lleol.	Ymgynghori â phobl ifanc am yr hyn a fydd yn eu denu nhw at stondin gyrfaoedd yn amhrisiadwy.
Denu a chadw gweithwyr newydd mewn rolau gwaith cymdeithasol.	Ymadawr ysgol wedi'i recriwtio i swydd prentisiaeth mewn cartref gofal preswyl.	Yr ymadawr ysgol wedi cwblhau prentisiaeth yn llwyddiannus ac ennill cymhwyster Lefel 2 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a'i gyflogi wedi hynny ar gontract parhaol. Mae ein prentis wedi cyfrannu at Ymgyrch Denu a Recriwtio Gofal Cymdeithasol Cymru, a chael sylw yn yr ymgyrch.	Yr angen i fabwysiadu dull cefnogol a hyblyg at y ffordd y mae pobl ifanc yn cael eu cyflwyno i'r math hwn o waith. Bydd peidio â'u cynnwys ar rotâu penwythnos/gyda'r hwyr ac adeiladu'n raddol yn helpu i'w cadw.
Straen ymysg gofawyr maeth a gweithwyr cymdeithasol sy'n goruchwyllo.	Defnyddio'r ystafell ddosbarth (pabell), ymarfer sgiliau, a defnyddio ceffylau i ddangos sut y gall cynrychiolwyr reoli eu hemosiynau yn well. Yn cynnwys cyflwyniad i drawma, drawma dirprwyol, ymddygiad ac	Digwyddiad peilot i'w gynnal ar ddiwedd Chwefror 2020 (lefelau golau gwell ar gyfer yr elfennau awyr agored). Canlyniad – cynnal gwydnwch gofawyr maeth a chadw staff.	Caiff ei werthuso pan fydd y digwyddiad peilot wedi'i gynnal.

	ymlyniad ac ymwybyddiaeth ofalgar. Bydd gweithio gyda'r ceffylau yn seiliedig ar ffiniau, a pheth gwaith ar dechnegau anadlu.		
Darparu'n effeithiol y Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer gweithwyr cymorth gofal sy'n gweithio ym mhob lleoliad gofal cymunedol a gofal cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau gofal oedolion a phlant ar draws y rhanbarth cyfan.	Gweithio mewn partneriaeth – model newydd o gyflenwi cwrs ymsefydlu ar y cyd wedi'i ddatblygu a'i ddarparu gan ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Wedi datblygu deunyddiau hyfforddi dwyieithog a darparu'r cwrs yn ddwyieithog. Wedi'i gefnogi gan grŵp llywio a gweithredu partneriaeth gydag aelodaeth eang gan gynnwys sectorau addysg bellach a darparwyr cyn-gyflogaeth.	Tair carfan o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a phobl cyn-gyflogaeth sydd am weithio yn y sector wedi dilyn yr un rhaglen ymsefydlu. Rydym wedi cyflogi'r Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyntaf ar y cyd i weithio ar draws timau hyfforddi SCWWDP a GIG. Ar draws y sector rydym wedi gwella ein rhaglen ymsefydlu, gan ddysgu oddi wrth ein gilydd. Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi meithrin cysylltiadau cryfach ac wedi ymrwymo i ariannu ar y cyd a chyflenwi'r rhaglen hon yn barhaus.	Mae modd sefydlu model cyflenwi partneriaeth. Gall Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydweithredu i reoli cynllunio, costau a chyllidebau ar y cyd. Mae dysgwyr yn rhoi adborth cyson ar bwysigrwydd a gwerth yr ymsefydlu a gyflenwir gan arbenigwyr lleoliad gwaith. Maent yn gwerthfawrogi dysgu gyda'i gilydd ac mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cael yr un hyfforddiant erbyn hyn. Mae hyn yn sicrhau cydraddoldeb yn y dysgu ar ddechrau eu gyrfaedd waeth beth fo'u cyflogaeth yn y gweithle neu leoliad gwaith.
Anawsterau recriwtio a chadw yn y sector preswyl a chartref.	Dull cydweithredol gyda phartneriaid gan gynnwys Gweithffyrdd+ i gyflwyno cais llwyddiannus ar gyfer Cyllid Her yr Economi Sylfaenol i ariannu dwy swydd (Rheolwr Prosiect a Gweinyddwr) i sefydlu a rheoli'r prosiect.	1. Cronfa o weithwyr gofal asiantaeth sy'n barod i gyflenwi. 2. Y nod yw recriwtio pobl newydd ddi-waith i'r sector gofal gan greu llwybr gyrfa cydnabyddedig i rolau proffesiynol megis gwaith cymdeithasol.	Gall gwneud y defnydd gorau o bartneriaethau sy'n bod greu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Ymgysylltu a chysylltu â chymunedau tebyg eraill o ymarfer mewn rhanbarthau eraill i rannu'r dysgu. Pwysigrwydd gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol i herio modelau cyffredin o ymarfer a llywodraethu.

Gwella'r cymorth i ofalwyr newydd	Tîm dylunio cyd-gynhyrchu wedi'i ffurfio, gan gynnwys gofalwyr presennol/JCT/PCISS/rheolwr tîm gofal oedolion i greu gweithdy "Newydd i Ofalu – Angen Gwybod" wedi'i blethu â gweithdy presennol GIG "Cyflwyniad i Edrych ar fy ôl i" a'i ategu.	- Cynllun sesiwn wedi'i gymeradwyo - Darparwyr hyfforddiant wedi'i nodi - Darpariaeth i ddechrau cyn 31.3.20 yn gwahodd grwpiau bach o ofalwyr drafod yr hyn y mae gofalwr yn ei olygu iddyn nhw, cael persbectif gan ofalwr profiadol, a nodi'r cymorth y gallant ei gael.	Mae cynnwys gofalwyr yn y cam dylunio wedi bod yn gadarnhaol iawn, a bydd eu mewnbwn i ddatblygu dogfennau ategol (megis llyfr cofnod gofalwyr a "Fy llyfr stori i") yn amhrisiadwy.
-----------------------------------	--	---	--

Atodiad D

Cynllun Gweithredu Treigl – 2020/2021

BLAENORIAETH: Galluogi'r gweithlu i fodloni gofynion rheoleiddiol ar gyfer cymhwyso a/neu gofrestru'r gweithlu gan ddefnyddio'r canllawiau sydd ar gael yn y Fframwaith Cymwysterau gan gynnwys cymorth ar gyfer rôl yr unigolion cyfrifol			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig)
Nodi a chefnogi'r gweithlu gan gynnwys rheolwyr ac unigolion cyfrifol i ddilyn cymwysterau a galluogi cofrestru a bodloni'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth gan gynnwys plant a phobl ifanc, oedolion, therapi galwedigaethol, gwybodaeth, cyngor a chymorth	Helpu'r sector i ennill y cymwysterau sydd eu hangen i gofrestru (Darpariaeth leol)	Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	Gofal Cymdeithasol Crymu Darparwyr hyfforddiant lleol Rheolwyr Perchnogion Gwasanaethau comisiynu
Darparu Fframwaith Ymsefydlu Cymru gyfan ar gyfer	Gofyniad rheoleiddiol a pharatoi ar gyfer cofrestru Fframwaith Cymwysterau	Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru	Darparwyr hyfforddiant lleol Timau SCWWDP Addysg a Gwella Iechyd Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru

iechyd a gofal cymdeithasol	Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru (Darpariaeth leol ar y cyd)	Cynllun peilot lechyd a Gofal Cymdeithasol Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan ar y cyd	Gweithffyrdd/Canolfan Byd Gwaith Darparwyr/Rheolwyr/Perchnogion
Darparu cymorth cofrestru pellach a gweithdai os oes angen	Mae angen cymorth ychwanegol i alluogi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (Darpariaeth leol)	Deddf Rheoleiddio ac Arolygu	Gofal Cymdeithasol Cymru Swyddog hyfforddi lleol Darparwyr/Rheolwyr Perchnogion Gwasanaethau comisiynu
Darparu sesiynau cymorth i unigolion cyfrifol fel y bo angen	Sicrhau bod gan unigolion cyfrifol y sgiliau a'r wybodaeth i ymgymryd â'u rôl (Darpariaeth leol)	Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru	Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru Darparwyr hyfforddiant Darparwyr Addysg Bellach
Darparu amrywiaeth o raglenni i gynorthwyo gwarantu Gweithwyr Proffesiynol lechyd Meddwl Cymeradwy sy'n bodoli	Cynnal capasiti ac awdurdodiad Gweithwyr Proffesiynol lechyd Meddwl Cymeradwy (Cydweithrediad lleol ar gyfer darpariaeth ranbarthol)	Rheoliadau lechyd Meddwl (Cymeradwyo Pobl i fod yn Weithwyr Proffesiynol lechyd Meddwl Cymeradwy) (Cymru) 2008	Arweinwyr lechyd Meddwl Gorllewin Cymru
BLAENORIAETH: Cynorthwyo rheolwyr gofal cymdeithasol i hyfforddi, datblygu a chymhwyso			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid

Nodi a chynorthwyo rheolwyr perthnasol i ddilyn y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm, Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol a'r Rhaglen Arweinyddiaeth Rheolwyr Strategol	Dilyniant gyrfa i reolwyr gofal cymdeithasol: (Cynllunio'r gweithlu lleol) (Darpariaeth genedlaethol)	Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Gofal Cymdeithasol Cymru IPC Oxford Brookes Bwrdd y Gweithlu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Rheolwyr ledled y sector Uwch Reolwyr Gwasanaeth
Darparu rhaglenni arweinyddiaeth a rheolaeth (Sgiliau goruchwyllo, Recriwtio a dethol, Rheoli newid, Gwydnwch, Dirprwy)	Sicrhau bod gan reolwyr gofal cymdeithasol y sgiliau rheoli sydd eu hangen a'u bod nhw'n gallu cefnogi'r agenda drawsffurfio	Corffori polisiau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol Fframweithiau arweinyddiaeth a rheolaeth	Gofal Cymdeithasol Cymru IPC Oxford Brookes Bwrdd y Gweithlu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Rheolwyr ledled y Sector Uwch Reolwyr Gwasanaeth
BLAENORIAETH: Ymarfer Gofal a Chymorth sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid
Darparu cymorth a hyfforddiant er mwyn gallu gweithredu'n barhaus y fframwaith ymarfer	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Mabwysiadu dull cyson o ran diogelu	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Resolutions Consultancy Tîmau SCWWDP Lleol Gwasanaethau Plant ac Oedolion Awdurdodau Lleol

Arwyddion Diogelwch	(Darpariaeth leol ar y cyd)		
Darparu amrywiaeth o hyfforddiant i helpu ymarferwyr i wella gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau e.e. asesu anghenion, cynllunio gofal, ymarfer systematig, adolygiadau, yn seiliedig ar gryfderau	Blaenoriaeth genedlaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Darpariaeth leol)	Gofal Cymdeithasol Cymru	Darparwyr hyfforddiant cenedlaethol awdurdodau lleol Gwasanaethau Plant ac Oedolion awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth
BLAENORIAETH: Rhaglenni cymhwyso ar gyfer gwaith cymdeithasol:			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid
Recriwtio a chynorthwyo hyfforddeion i ddilyn hyfforddiant cymhwyso gwaith cymdeithasol	Cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y gweithlu (Darpariaeth leol)	Cynllun a strategaeth y gweithlu	Y Brifysgol Agored
Darparu cyfleoedd dysgu mewn lleoliadau gwaith	Cynllunio ar gyfer olyniaeth gweithlu i sicrhau cyflenwad	Cynllun/strategaeth y gweithlu lleol/rhanbarthol	Y Brifysgol Agored Prifysgol Abertawe

cymdeithasol i fyfyrwyr Gradd ac MSc mewn gwaith cymdeithasol	digonol o weithwyr cymdeithasol cymwysedig i ateb anghenion y gwasanaeth. (Darpariaeth Leol)		Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a darparwyr Addysg Uwch eraill yn unol â chapasiti
Recriwtio staff pellach ar y llwybr secondiad ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol a chynorthwyo staff sydd eisoes wedi'u secondio	Cynllunio ar gyfer olyniaeth y gweithlu i sicrhau cyflenwad digonol o weithwyr cymdeithasol cymwysedig i fodloni gofynion statudol yn y dyfodol (Darpariaeth leol)	Strategaethau'r Gweithlu Lleol a Rhanbarthol	Y Brifysgol Agored Prifysgol Abertawe
Nodi a chynorthwyo staff i ddilyn Tystysgrif Addysg Uwch a Dyfarniad mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol (os yw ar gael)	Hyrwyddo safonau ymarfer o fewn gofal cymdeithasol a darparu cyfleoedd datblygu gyrfa – cysylltiad posibl â'r rhaglen gymhwyso gwaith cymdeithasol (Darpariaeth leol)	Strategaethau'r gweithlu lleol a rhanbarthol	Y Brifysgol Agored a darparwyr hyfforddiant Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Atodiad D

Cynllun Gweithredu Treigl – 2020/2021

BLAENORIAETH: Rhaglenni ôl-gymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol:			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid

Nodi a chynorthwyo gweithwyr cymdeithasol cymwysedig i ddilyn rhaglenni ôl-gymhwyso:- • Tystysgrif i Raddedigion • Addysgwr Ymarfer • Asesu'r Gallu i Wneud Penderfyniadau • Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy	Datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr cymdeithasol a datblygu gwybodaeth / arbenigedd mewn maes penodol. Sicrhau bod digon o weithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy i fodloni gofynion statudol. (Darpariaeth genedlaethol/leol)	Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus Gofynion cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru o ran Datblygiad proffesiynol parhaus 3 blynedd gyntaf o drefniadau ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Partneriaeth Porth Agored Sefydliad Gofal Cyhoeddus Prifysgol Abertawe Cynghrair Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus Gofal Cymdeithasol Cymru
Darparu amrywiaeth o hyfforddiant i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr cymdeithasol gan gynnwys y tair blynedd gyntaf mewn ymarfer	Bodloni anghenion gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, datblygiad proffesiynol parhaus a gofynion cofrestru a chynnal ymarfer cyfredol (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Gofal Cymdeithasol Cymru Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Datblygiad proffesiynol parhaus – gofynion cofrestru Darparwyr hyfforddiant lleol
Cynorthwyo staff perthnasol i ddilyn hyfforddiant Amddifadu o Ryddid Sifil / Asesu Budd Gorau a Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy	Cynyddu'r gronfa o staff sydd â digon o sgiliau i ddilyn hyfforddiant Amddifadu o Ryddid Sifil / Asesu Budd Gorau / Mesurau Diogelu Amddiffyn	Galluedd meddyliol Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Asesiadau, Awdurdodiadau Safonol ac Anghydfodau ynghylch Preswyllo) (Cymru) 2009 Rheoliadau (Cymru) 2009	Darparwyr lleol

	Rhyddid / Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy (Darpariaeth leol)	Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid / Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol a gofynion newydd Llywodraeth Cymru	
BLAENORIAETH: Cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid
Darparu cyfres o hyfforddiant dementia a mentrau eraill i fodloni'r Fframwaith Ymarfer Da ac anghenion gwasanaeth lleol	Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r gweithlu gofal cymdeithasol i sicrhau'r ymarfer gorau (Darpariaeth leol)	Blaenoriaeth Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru Maes gwaith blaenoriaeth cenedlaethol a rhanbarthol	Hywel Dda Darparwyr Hyfforddiant Cymdeithas Alzheimer Staff hyfforddi mewnol
Darparu sgiliau gofal a sgiliau gofal iechyd penodol ar gyfer anableddau dysgu, pobl hŷn a gwasanaethau plant e.e. diwedd oes, rheoli heintiau, gofal croen, difrod briwiau, clefyd siwgr, sgiliau clinigol, hyfforddiant meddyginiaeth, nam ar y synhwyrâu	Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r gweithlu gofal cymdeithasol i sicrhau'r arferion gorau (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru	Darparwyr hyfforddiant Hywel Dda Gofalwyr a chleientiaid Staff hyfforddi mewnol Trydydd sector arbenigol Darparwyr a gwasanaethau

Darparu hyfforddiant sgiliau uwch ar gyfer staff anableddau dysgu, gan gynnwys awtistiaeth, achredu hyfforddwyr rheoli ymddygiad cadarnhaol/cymorth ymddygiad cadarnhaol	Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'w gweithlu gofal cymdeithasol i sicrhau ymarfer gorau yn y gwaith gydag unigolion ag ymddygiad heriol a diogelu (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Blaenoriaeth Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru	Hyfforddwyr cymorth ymddygiad cadarnhaol mewnol Sefydliad Prydeinig dros Anableddau Dysgu Hywel Dda Bwrdd Iechyd Bae Abertawe
Darparu amrywiaeth o raglenni camddefnyddio sylweddau ar gyfer yr holl staff gofal cymdeithasol	Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau'r ymarfer gorau (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	DrugAid/Barod
Darparu cymorth ar gyfer yr hyfforddiant iechyd a diogelwch a nodwyd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, e.e. codi a chario, cymorth cyntaf, ymwybyddiaeth o dân a thrin bwyd	Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r gweithlu gofal cymdeithasol i ymarfer yn ddiogel (Darpariaeth leol)	Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974	Timau iechyd a diogelwch awdurdodau lleol Darparwyr hyfforddiant awdurdodau lleol Darparwyr hyfforddiant allanol
Darparu hyfforddiant sgiliau iechyd meddwl ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol/ymarferwyr a gofalwyr e.e. (Deddf Galluoedd Meddyliol, atal	Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau'r ymarfer gorau (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Darparwr hyfforddiant lleol

hunanladdiad, therapi gwybyddol ymddygiadol ac ati)			
Darparu hyfforddiant cydraddoldeb arbenigol e.e. hyfforddiant lesbiaidd hoyw deurywiol a thrawsrywiol ar gyfer staff gofal cymdeithasol	Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r gweithlu gofal cymdeithasol i sicrhau'r arferion gorau (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] Deddfwriaeth cydraddoldeb	Darparwr hyfforddiant wedi'u comisiynu
Rhoi'r sgiliau i staff gofal cymdeithasol ddarparu hyfforddiant yn fewnol trwy ddatblygu sgiliau hyfforddwyr e.e. y cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr / Addysg a Hyfforddiant Lefel 3	Cyfleoedd datblygu gyrfa i'r gweithlu (Darpariaeth leol)	Gofal Cymdeithasol Cymru Llywodraeth Cymru	Darparwr hyfforddiant wedi'u comisiynu Cydwethwyr Addysg Bellach
BLAENORIAETH: Cyflwyno rhaglen e-ddysgu i ofalwyr a'r rhaglen hyfforddiant asesu i ofalwyr			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid
Cynorthwyo staff i gwblhau dysgu trwy ddarparu sesiynau gwaith grŵp â chymorth	Galluogi staff sydd â sgiliau digidol cyfyngedig neu fynediad cyfyngedig at offer TG i gwblhau e-ddysgu Ymwybyddiaeth o Ofalwyr	Gofal Cymdeithasol Cymru	GIG Awdurdodau Lleol yng Ngorllewin Cymru Swyddog hyfforddi lleol

	(Ymrwymiad rhanbarthol i ddarpariaeth leol)		
Darparu hyfforddiant i helpu i weithredu pecyn cymorth asesu anghenion gofalwyr	Angen lleol wedi'i nodi i wella ansawdd asesiadau gofalwyr (Darpariaeth ranbarthol a lleol)	Gofal Cymdeithasol Cymru Cynllun Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru	GIG Hyfforddwyr mewnol Uned Gofalwyr
Gweithgareddau Eraill			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid
Darparu amrywiaeth o raglenni diogelu (Ymwybyddiaeth gyffredinol, Rheoli honiadau, Cynadleddau achos, Cyflawni tystiolaeth orau) i gefnogi gweithdrefnau diogelu newydd Cymru	Bodloni gofynion y 'Strategaeth Hyfforddi Diogelu Pob Oedran Rhanbarthol' ac anghenion lleol a nodwyd. Cefnogi gweithredu gweithdrefnau diogelu newydd (Darpariaeth leol a rhanbarthol)	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Rhan 7 Gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan	Hywel Dda Heddlu Dyfed Powys Llywodraeth Cymru Arweinwyr hyfforddiant rhanbarthol Darparwyr trydydd sector
Cynorthwyo'r ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ofynnol gan fframwaith hyfforddi cenedlaethol y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod,	Bodloni gofynion Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru	Darparwyr trydydd sector Hywel Dda Llywodraeth Cymru

Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Thrais Rhywiol (Darpariaeth leol)	Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Is-grŵp Hyfforddiant	
Darparu hyfforddiant Cymraeg i gefnogi Mwy na Dim Ond Geiriau/y Cynnig Gweithredol	Mae gan staff yr wybodaeth a'r sgiliau i gymhwyso fframwaith strategol y Gymraeg/y Cynnig Gweithredol a darparu gwasanaethau dwyieithog (Darpariaeth Leol)	Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 Safonau'r Gymraeg	Tiwtor Cymraeg yn y Gwaith Mewnol Iaith Cyf Llywodraeth Cymru Addysg i Oedolion ac Addysg Gymunedol Agored Cymru
Darparu amrywiaeth o hyfforddiant i gefnogi gwasanaethau maethu a mabwysiadu lleol	Angen â blaenoriaeth i gefnogi a chadw gofawyr maeth a mabwysiadu lleol (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Rheoliadau Maethu a'r fframwaith hyfforddiant newydd	Darparwyr hyfforddiant wedi'u comisiynu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Gwasanaethau Maethu a Mabwysiadu Rhanbarthol
Cynorthwyo staff gofal cymdeithasol i fynychu amrywiaeth o gynadleddau, hyfforddiant arbenigol a dilyn cymwysterau arbenigol	Sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol/dysgu a datblygu pwrpasol ar gael i fodloni anghenion y gwasanaeth / datblygu gwasanaeth/ datblygiad proffesiynol parhaus a chynllunio olyniaeth (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Gofal Cymdeithasol Cymru Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru	Cyflenwyr hyfforddiant lleol / cenedlaethol Amrywiaeth o ddarparwyr AB/AU

Darparu rhaglen ddysgu ranbarthol ar gyfer cysylltu bywydau/gofalwyr lleoliad oedolion	Darparu rhaglen ranbarthol gyson i ateb anghenion gofalwyr (cydweithrediad ranbarthol gan alluogi darpariaeth leol)	Blaenoriaeth Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	Tîm lleoliadau oedolion ranbarthol Darparwyr hyfforddiant
Darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau datblygu ymarfer/cyfnewid/datblygu gwasanaeth/datblygu tîm	Rhannu ymarfer gorau, cefnogi ad-drefnu gwasanaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Darpariaeth leol)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth	Darparwyr hyfforddiant lleol a'r Adran Cymunedau
Cefnogi amrywiaeth o hyfforddiant i ofalwyr e.e. sgiliau gofalwyr (gan gynnwys taliadau uniongyrchol gofalwyr, cynhadledd gofalwyr)	Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Darpariaeth leol)	Gofal Cymdeithasol Cymru Fforwm y Gofalwyr	Cynghrair y Gofalwyr Sefydliadau gwirfoddol, y trydydd sector a darparwyr wedi'u comisiynu Hywel Dda
Datblygu prosiectau, cymorth hyfforddiant, gweithgareddau ymgysylltu, datblygu'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, deunyddiau hyrwyddo a datblygu rhaglenni e-ddysgu	Sicrhau bod amrywiaeth o ddulliau gennym i gyflenwi rhaglenni. Cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol ar draws y sector cyfan	Gofal Cymdeithasol Cymru Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Fforymau ymgysylltu	Cyflenwyr lleol

newydd ar gyfer staff gofal cymdeithasol. Hyfforddiant systemau gwybodaeth rheoli gwasanaethau cymdeithasol (Carefirst)	(Darpariaeth leol a rhanbarthol)		
Darparu amrywiaeth o hyfforddiant i fodloni'r cynllun comisiynu a chontractio dysgu a datblygu rhanbarthol	Darparu rhaglen ranbarthol gyson. Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Blaenoriaeth Strategol	Blaenoriaeth Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd, timau comisiynu lleol, darparwyr hyfforddiant

Elfen Grant Hwyluso Rhanbarthol

BLAENORIAETH: Cyllid Craidd			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid
Cyfraniad at gostau cyflog Rheolwr Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol Ymgysylltu, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth â'r sector cyfan drwy gynnal cyfarfodydd, sioeau teithiol, y wefan, gweminarau, dysgu drwy weithredu, hwyluso	Darpariaeth ranbarthol	Gofal Cymdeithasol Cymru Addysg a Gwella Iechyd Cymru Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Llywodraeth Cymru Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol	Gwasanaethau wedi'u comisiynu, cyflogwyr statudol, trydydd sector a sector preifat, pobl sy'n defnyddio darparwyr hyfforddiant gofal a chymorth i ofalwyr, gan gynnwys addysg bellach ac uwch, comisiynwyr, darparwyr gofal wedi'u rheoleiddio a heb eu rheoleiddio. Partneriaid statudol lleol eraill, gan gynnwys er enghraifft, iechyd, addysg, tai, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf.
BLAENORIAETH: Fforwm Rheolwyr Cofrestredig			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid

	(gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)		
Darparu digwyddiad rheolwr cofrestredig rhyngweithiol i gefnogi canlyniad gweithgareddau ymgysylltu cyfredol sy'n ceisio deall anghenion darparwyr, ochr yn ochr â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.	Darpariaeth ranbarthol. Ceisio darparu gwybodaeth, casglu adborth a chreu cyfleoedd rhwydweithio ar gyfer rheolwyr cofrestredig	Gofal Cymdeithasol Cymru Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol	Arweinwyr comisiynu Rheolwyr cofrestredig
BLAENORIAETH: Swydd i gefnogi'r ymgyrch denu a recriwtio			
Camau Gweithredu	Sail Resymegol (gan gynnwys darpariaeth ranbarthol neu leol)	Cysylltiadau Strategol	Partneriaid
Cyfraniad at gostau cyflog swydd newydd gyfwerth ag amser llawn yn y tîm rhanbarthol i	Darpariaeth ranbarthol a lleol. Mae Rheolwr Rhaglen u	Gofal Cymdeithasol Cymru	Gwasanaethau a gomisiynir, cyflogwyr statudol, cyflogwyr y trydydd sector a'r sector preifat, pobl sy'n defnyddio gofal ac yn cefnogi darparwyr hyfforddiant i ofalwyr gan gynnwys sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, comisiynwyr, darparwyr hyfforddiant rheoleiddiedig a rhai heb eu rheoleiddio, partneriaid

ddarparu cwmpas gweithredol y swyddogaeth Cysylltydd Gyrfaoedd Gofal. Proffil swydd i fod yn unol â gofynion rôl y cylchlythyr grant Cyllid sy'n weddill: Cynhadledd gofawyr wedi'i threfnu gyda phartneriaid allweddol	Gweithlu Rhanbarthol eisoes yn y swydd ac mae wedi meithrin cysylltiadau ar draws y sector. Bydd hyn yn golygu bod modd rhwydweithio'n gyflym ar gyfer y swyddogaeth Cysylltydd Gofal, gan alluogi deiliad y swydd i fod yn gynhyrchiol yn gynnar yn y swydd.	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Bwrdd Rhaglen y Gweithlu Rhanbarthol Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol	statudol lleol eraill gan gynnwys er enghraifft iechyd, addysg, tai, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf.
---	--	---	---

Atodiad A / Appendix A

Ffurflen Cymeradwyo Cais am Grant Grant Application Endorsement Form – 2020/2021

Cyfarwyddwr rhanbarthol arweiniol gwasanaethau cymdeithasol Lead regional director of social services	Cyfarwyddwr rhanbarthol arweiniol cyllid Lead regional director of finance	Rheolwr rhanbarthol arweiniol datblygu'r gweithlu Lead regional workforce development manager
Enw/Name: Jonathan Griffiths Rhif ffôn/Telephone Number: 01437 775831 E-bost/E-mail: jonathan.griffiths@pembrokeshire.gov.uk Llofnod/Signature:  Dyddiad/Date: 21/02/2020	Enw/Name: Stephen Johnson Rhif ffôn/Telephone Number: 01970 633110 E-bost/Email: Stephen.Johnson@ceredigion.gov.uk Llofnod/Signature:  Dyddiad/Date: 21/02/2020	Enw/Name: Ruth Bowman Rhif ffôn/Telephone Number: 01267 246764 E-bost/Email: RBowman@carmarthenshire.gov.uk Llofnod/Signature:  Dyddiad/Date: 20/02/2020